Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AC
Gweinidog Addysg

24 Gorffennaf 2019

Annwyl Kirsty,

Yn ein cyfarfod diweddar, trafodom ni ein dull o ystyried fframweithiau polisi cyffredin ledled y DU.
Er mwyn llywio gwaith craffu perthnasol y gallai fod angen i ni wneud, byddem yn ddiolchgar pe gallem gael y canlynol gennych chi:

- unrhyw fframweithiau sy'n cael eu datblygu o fewn eich portffolio Cabinet;
- y sylfaen dystiolaeth i gefnogi penderfyniadau ar fframweithiau;
- strwythurau rhynglywodraethol sydd wedi cael eu sefydlu, neu sydd wrthi'n cael eu datblygu (fforymau Gweinidogol ac ati);
- pa ganlyniad neu ganlyniadau a ddisgwylir o'r fframweithiau (o safbwynt deddfwriaethol ac anneddfwriaethol);
- a oes camau eisoes wedi'u cymryd (deddfwriaethol neu anneddfwriaethol) i sefydlu fframweithiau o fewn eich cylch gwaith;
- cyflwr y cynnydd yn erbyn pob un o'r fframweithiau yn eich cylch gwaith;
- sut maent yn cysylltu â chamau presennol neu arfaethedig Llywodraeth Cymru (e.e. deddfwriaeth, ymgynghoriadau polisi ac ati); a
- sut y bydd maes pob fframwaith yn cael ei reoli os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb.

Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth hon erbyn 2 Medi. Gan fod rhai o gylchoedd gwaith ein pwyllgorau yn gorgyffwrdd, ac er mwyn osgoi dyblygu diangen, rydym yn hapus i gydlynu'r gwaith o rannu'r wybodaeth hon gyda phwyllgorau eraill sy'n debygol o fod â diddordeb (e.e. Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau).

Yn gywir,

Lynne Neagle AC
Cadeirydd

Cc Russell George, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565